

Dod i'nabod aelod o GLWB GWAWR

BETH LAWTON

Cadeirydd Clwb Gwawr Bro Dysynni

Cefais fy magu ym mhentre' Brynecrug, ym Mro Dysynni ger Tywyn yn Sir Feirionnydd ac yn falch o fod yn ferch fy milltir sgwâr hyd heddiw! Derbynais fy addysg yn Ysgol Gynradd Brynecrug ac yna Ysgol Uwchradd Tywyn cyn mynd ymlaen i astudio yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau.

Yn 17 oed, ar ôl gadael coleg, cefais fy swydd gyntaf gyda busnes lleol 'Evans & Greenaway' – cwmni peirianeg ac yn un o brif gyflogwyr y pentref yn ei gyfnod. Yna derbyn swydd gyda chwmmi cyfreithwyr yn Nhywyn – Williams & Hancock, yn cynorthwyo Mr Williams, un o'r partneriaid, a oedd yn Glerc i'r Llys Ynadon yn y dref.

Priodais yn ifanc a chael dau o blant, Samantha ac Alan, cyn colli fy ngŵr i

drawiad ar y galon ychydig cyn fy mhen-blwydd yn 22 mlwydd oed. Gyda'r plant yn ifanc, bûm yn gweithio yn yr ysgol feithrin leol, cyn cael cyfle i ddychwelyd nôl i Greenaway UK, yn gweithio rhan amser yn y swyddfa gydag oriau oedd yn cyd-fynd gydag oriau ysgol y plant.

Yn 2001, daeth cyfle i mi brynu hanner cwmni Greenaway UK, yn sgil ymddeoliad y perchennog gan gwblhau'r cylch gyrfa! Mae'r cwmni bellach yn cynhyrchu darnau arbenigol i lorïau, ac mae'r gwerthiannau i gyd yn cael eu hallforio i Ewrop. Teg yw dweud gyda Brexit ar y gorwel, mae'n peri tipyn o boen meddwl ar hyn o bryd!

Yn ogystal â'r busnes peirianeg, 'rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r gymuned leol. Ar ôl cael canser y fron yn 49 oed, penderfynais sefyll fel cynghorydd sir, ac rwyf bellach yn cynrychioli plwyfi Brynecrug a Llanfihangel y Pennant ers bron i saith mlynedd. Rwy'n parhau fel cynghorydd cymuned a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn, ysgol ardal i bentrefi gwledig Bro Dysynni.

'Rwy'n Nain i bedwar o wyrion ac wyresau, ac yn cael pleser mawr o fod yn eu cwmni yn enwedig treulio amser gyda nhw ar lan y môr! Un o fy mhrif ddiddordebau ydi coginio – ac yn



Beth Lawton

mwynhau'r her o greu cacen dathliad, boed yn briodas neu yn ben-blwydd.

Cefais alwad 'ychydig dros flwyddyn yn ôl i helpu sefydlu Clwb Gwawr yn lleol ac wedi mwynhau yn arw cael cyfle i gymdeithasu yn yr iaith Gymraeg. Uchafbwynt Clwb Gwawr Dysynni oedd noson o gerdded ar lwybr yr arfordir o Dywyn i Aberdyfi a phryd o fwyd i ddilyn. Chwerthin, cwmni da a golygfeydd godidog – dwi wir yn lwcus fy mod yn byw mewn ardal mor arbennig.

Pob lwc i Glwb Gwawr Bro Dysynni!

Ein hawliau wrth brynu nwyddau ar-lein



Mae gennym fwy o hawliau gwarchoddedig wrth brynu ar-lein nag mewn siop ar y stryd fawr.

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Wrth brynu ar-lein o fusnes yn Ewrop (ar hyn o bryd) mae gennych hawl gyfreithiol i ganslo am 14 diwrnod, a hawl pellach i anfon yr eitem yn ôl am 14 diwrnod a chael eich arian yn ôl yn llawn. Ond dydi hyn ddim yn wir am nwyddau a brynir mewn *ocsïwn* ar-lein; felly peidiwch â chynnig ar yr eitem ond dewiswch "*prynu nawr / buy it now*" os am gael yr hawl i'w anfon yn ôl.

A gewch chi gost anfon yr eitem yn ôl?

Cewch, ond cofiwch ofyn am hyn gan nad yw pob siop neu fusnes yn cynnig hyn heb ofyn, a dim ond y modd rhataf a delir amdano gan y cwmni. Oni bai fod amlen barod bydd rhaid talu. Cofiwch gadw cofnod o brawf postio hefyd.

Beth os defnyddir PayPal i dalu?

Os bydd PayPal wedi ei ddefnyddio i brynu gan siop sydd ar gael ar stryd fawr ee Next, yna fe gewch yr arian yn ôl. Mae rhai cwmnïau yn mynnu cael y nwyddau yn ôl cyn talu'r costau a hynny trwy eu postio yn ôl, nid mynd â nhw i'r siop. Cofiwch hefyd fod rhai siopau yn rhoi'r arian yn ôl i'r garden ddefnyddiwyd ac nid i'r cyfrif PayPal.

Beth am y bobl breifat sy'n gwerthu ar eBay?

Does dim hawl i anfon yr eitem yn ôl onibai ei fod yn hollol wahanol i'w ddisgrifiad neu ei fod yn ddiffygiol. Os yn talu drwy PayPal ar eBay mae gwarant i gael eich arian yn ôl os nad yw'n bosib cytuno ar ôl anghydfod.

A beth am ddefnydd digidol ee cân, app, rhaglen deledu? A oes modd anfon rhain yn ôl?

Efallai i chi brynu cân neu fflim yn ddamweiniol. Mae gennych hawl i gael eich arian yn ôl os nad ydych wedi ei lawr-lwytho neu wrando neu wyllo.

Cysylltwch â'r cwmni gan fod y rheolau yn gwahaniaethu o un i'r llall. Ond os oes nam ar y cynnwys yna mae hawl gennych i gael ad-daliad llawn neu gael darn newydd yn ei le.